Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Pecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae - Adnodd 8

## Plant fel archwilwyr - Taflen wybodaeth

Mae'r offeryn hwn yn darparu awgrymiadau ar gyfer cynnwys plant wrth gynnal yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ac archwilio mannau chwarae.

### Awgrymiadau ar gyfer grŵp ffocws

Bydd plentyn sy'n chwarae, drwy reddf, yn dehongli lle ac yn ei newid, neu'n symud ymlaen am nad yw'r lle yn cynnig yr hyn sydd ei angen arno neu ddim yn ei gynnig mwyach. I'r rheini sy'n gyfrifol am asesu mannau chwarae, plant fydd y ffynhonnell fwyaf dibynadwy o wybodaeth.

Wrth archwilio man chwarae, mae'n bwysig cofio mai gweithgaredd a wneir gan oedolion ydyw ac nid plant. Mae'n bwysig peidio ag amharu ar amser plant, ond er mwyn sicrhau bod ganddynt ymdeimlad o berchnogaeth dros y man chwarae, mae eu cyfranogiad yn fuddiol yn hyn o beth.

Mae rhai plant wrth eu bodd yn chwarae rôl. Bydd eu chwilfrydedd naturiol yn gwneud iddynt holi am yr hyn sy'n digwydd pan fyddant yn gweld oedolion yn cyfrif adnoddau ac efallai y byddant am helpu. Heb roi pwysau arnynt, a chyda pheth arweiniad, gall plant lywio asesiad o fan chwarae mewn sawl ffordd.

Gall edrych ar fapiau gyda phlant fod yn ffordd dda o edrych ar ddaearyddiaeth ardal a dechrau deall sut mae plant yn chwarae ynddi.

Dulliau lle gellir cynnwys cyfranogiad plant:

- tynnu lluniau o'r hyn maent yn hoffi ei wneud
- cyfweld â phlant eraill am eu diddordebau
- llunio a chwblhau holiaduron gyda'u cyfoedion
- tynnu ffotograffau o'r hyn sy'n digwydd yn y man chwarae.

Pan fydd plant yn cymryd rhan mewn gwaith archwilio, mae'n bwysig cofio nad ydynt yn teimlo bod rhywun yn addo pethau nad oes modd eu cael. Bydd gofyn amrywiaeth o gwestiynau iddynt ac annog eu cyfranogiad yn helpu plant i weld y posibiliadau. Mae hwn yn gam mapio sydd hefyd yn cynnwys dehongli'r man a'r hyn sy'n digwydd ynddo, i gefnogi prosesau gwneud penderfyniadau.

Os caiff negeseuon cymysg eu cyfleu ar unrhyw adeg yn ystod y broses ynghylch datblygu lleoliad neu adnoddau yn y dyfodol, bydd plant yn teimlo eu bod wedi'u hymddieithrio.
Bydd plant sydd ar gamau gwahanol o ran eu dealltwriaeth yn dehongli pethau'n wahanol, ac felly bydd sicrhau bod eu cyfranogiad yn briodol yn ddatblygiadol yn helpu i leihau'r risg o gamddealltwriaeth.

## Cadw plant yn ddiogel

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob unigolyn, grŵp a sefydliad sy'n cynnig gweithgareddau neu wasanaethau i blant a phobl ifanc yng Nghymru i ddilyn y cyngor a ddarperir yn Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl: cod ymarfer diogelu. Mae'r cod hwn yw helpu pobl i ddeall y trefniadau diogelu a ddylai fod ar waith i weithredu'n ddiogel ac i ddiogelu'r holl gyfranogwyr.

Mae Modiwl ar-lein ar gyfer diogelu Grŵp Gofal Cymdeithasol Cymru yn adnodd am ddim i bawb y mae eu rolau yn dod â nhw i gysylltiad â phlant a phobl ifanc.

Wrth ymgymryd â gweithgareddau digonolrwydd chwarae sy'n cynnwys plant, cyfeiriwch at Weithdrefnau Diogelu Cymru sy'n helpu pobl i ddeall eu cyfrifoldebau i ddiogelu plant a phobl ifanc yng Nghymru.